**Datganiad o Reswm**

**Y Bwriad i Gyflwyno Cynllun Parcio i Breswylwyr – Parth 2, Pen-y-bont ar Ogwr.**

Cyflwyno cyfyngiadau parcio 'Parcio i Ddeiliaid Trwydded Preswylwyr yn Unig' 'Bae Aros Cyfyngedig' a 'Dim Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg' ym Mharth 2, ar Sunnyside Road, Ffordd Fynediad Sunnyside a Cae Dre Street. Dirymu'r Cyfyngiadau Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg presennol ar Ffordd Fynediad Sunnyside.

Ystyrir ei bod yn briodol gweithredu'r cynllun arfaethedig i gadw rhan o'r lle parcio ar y stryd ar gyfer preswylwyr yn unig tra'n caniatáu i ymwelwyr/danfonwyr barcio yn y bae aros cyfyngedig am gyfnod cyfyngedig, yn ystod oriau gweithredol heb fod angen trwydded.

Ystyrir ei bod yn briodol gweithredu'r cyfyngiadau 'Parcio i Ddeiliaid Trwydded Preswylwyr yn Unig' 'Bae Aros Cyfyngedig' a 'Dim Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg' arfaethedig at y dibenion a gynhwysir yn Adran 1 (a), (c), ac (f) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn:-

(a) osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd neu atal tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi.

(c) hwyluso teithio ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall i unrhyw ddosbarthiad o draffig (gan gynnwys cerddwyr).

(f) cynnal neu wella amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg trwyddi.

Er mwyn gallu cyflwyno'r cynllun parth parcio i ddeiliaid trwydded preswylwyr newydd, mae angen dileu'r Gorchmynion cyfyngu Mynediad yn Unig sydd ar waith ar hyn o bryd ar Sunnyside Road a Cae Dre Street.

Ystyrir ei bod yn briodol gweithredu'r cynnig i ddirymu'r gorchmynion mynediad at y dibenion a gynhwysir yn Adran 1 (c) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn:-

(c) hwyluso teithio ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall i unrhyw ddosbarthiad o draffig (gan gynnwys cerddwyr).

Wrth benderfynu a ddylid cyflwyno'r Gorchmynion i roi'r uchod ar waith, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r materion a nodir yn adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae'n ofynnol yn ôl Adran 122(1) bod y Cyngor yn ymarfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan Ddeddf 1984 (cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol gan ystyried y materion a nodir yn adran 122(2)) i sicrhau symud traffig cerbydau a thraffig arall (gan gynnwys cerddwyr) yn gyflym, yn gyfleus ac yn ddiogel, a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd ac oddi arni.

Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn a122 (2) yw:

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i safleoedd;

2. Yr effaith ar amwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar ddefnydd cerbydau masnachol trwm o ffyrdd er mwyn cadw neu wella amwynderau'r ardaloedd y mae'r ffordd yn mynd trwyddynt;

3. Y strategaeth ansawdd aer a baratowyd dan adran 80 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;

4. Pwysigrwydd hwyluso teithio i gerbydau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra'r rhai sy'n defnyddio neu'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;

5. Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn y Cyngor.

Ar ôl ystyried y ddyletswydd A122, ystyrir ei bod yn briodol cyflwyno'r Gorchmynion arfaethedig.

Dangosir y cynigion ar Luniad cyfeirnod: YMGYNGHORIAD AR GYNIGION PARCIO I BRESWYLWYR - CANOL TREF PEN-Y-BONT AR OGWR (2).

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan yr adran Rheoli Traffig.

Bydd y marciau ffordd cyfyngu yn cydymffurfio yn unol â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.